

Bywoliaeth Reithoral Y Bontfaen

Blwyddyn A

Cyflwyniad Crist yn y Deml

Year A

The Presentation of Christ

Emyn I

Gwyn a gwridog, hawddgar iawn,
yw f'Anwylyd;
doniau'r nef sydd ynddo'n llawn,
peraidd, hyfryd:
daear faith nac uchder nef
byth ni ffeindia
arall tebyg iddo ef:
Halelwia!

Ynddy'i hunan y mae'n llawn
bob trysorau:
dwyfol, berffaith, werthfawr lawn
am fy meiau;
gwir ddoethineb, hedd a gras
gwerthfawroca',
nerth i hollol gario'r maes:
Halelwia!

Dyma sylfaen gadarn, gref
drwy fy mywyd;
credu, ac edrych arno ef,
yw fy ngwynfyd;
ynddo bellach drwy bob pla
y gobeithia';
ac mewn rhyfel canu wna':
Halelwia!

Hymn I

Gwyn a gwridog, hawddgar iawn,
yw f'Anwylyd;
doniau'r nef sydd ynddo'n llawn,
peraidd, hyfryd:
daear faith nac uchder nef
byth ni ffeindia
arall tebyg iddo ef:
Halelwia!

Ynddy'i hunan y mae'n llawn
bob trysorau:
dwyfol, berffaith, werthfawr lawn
am fy meiau;
gwir ddoethineb, hedd a gras
gwerthfawroca',
nerth i hollol gario'r maes:
Halelwia!

Dyma sylfaen gadarn, gref
drwy fy mywyd;
credu, ac edrych arno ef,
yw fy ngwynfyd;
ynddo bellach drwy bob pla
y gobeithia';
ac mewn rhyfel canu wna':
Halelwia!

William Williams, 1717-91

William Williams, 1717-91

Y Colect

Hollalluog a bythfywiol Dduw, sy'n gwisgo mawredd, y cyflwynwyd dy annwyl Fab y dydd hwn yn y Deml, yn sylwedd ein cawd: caniatâ i ninnau gael ein cyflwyno i ti â chalonnau pur a glân, gan dy Fab Iesu Grist ein Harglywydd, sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi, yn undod yr Ysbryd Glân, yn un Duw, yn awr ac am byth. **Amen.**

The Collect

Almighty and ever-living God, clothed in majesty, whose beloved Son was this day presented in the Temple, in substance of our flesh; grant that we may be presented to you with pure and clean hearts, by your Son Jesus Christ our Lord, who is alive and reigns with you, in the unity of the Holy Spirit, one God, now and for ever. **Amen.**

Malachi 3.1-5

Darlleniad o'r proffwyd Malachi

"Wele fi'n anfon fy nghennad i baratoi fy ffordd o'm blaen; ac yn sydyn fe ddaw'r Arglwydd yr ydych yn ei geisio i mewn i'w deml; y mae cennad y cyfamod yr ydych yn hoff ohono yn dod," medd Arglwydd y Lluoedd. Pwy a all ddal dydd ei ddyfodiad, a phwy a saif pan ymddengys? Y mae fel tân coethydd ac fel sebon golchydd. Fe eistedd i lawr fel un yn coethi a phuro arian, ac fe bur a feibion Lefi a'u coethi fel aur ac arian, er mwyn iddynt fod yn addas i ddwyn offrymau i'r Arglwydd. Yna bydd offrwm Jwda a Jerwsalem yn hyfrydwch i'r Arglwydd, fel yn y dyddiau gynt a'r blynnyddoedd a fu. "Yna nesâf atoch i farn, yn dyst parod yn erbyn dewiniaid a godinebwyr; yn erbyn y rhai sy'n tyngu'n gelwyddog; yn erbyn y rhai sy'n gorhrymu'r gwas cyflog, y weddw a'r amddifad; yn erbyn y rhai sy'n gwthio'r

Malachi 3.1-5

A reading from the prophet Malachi.

Thus says the Lord God: See, I am sending my messenger to prepare the way before me, and the Lord whom you seek will suddenly come to his temple. The messenger of the covenant in whom you delight – indeed, he is coming, says the Lord of hosts. But who can endure the day of his coming, and who can stand when he appears? For he is like a refiner's fire and like fullers' soap; he will sit as a refiner and purifier of silver, and he will purify the descendants of Levi and refine them like gold and silver, until they present offerings to the Lord in righteousness. Then the offering of Judah and Jerusalem will be pleasing to the Lord as in the days of old and as in former years. Then I will draw near to you for judgement; I will be swift to bear witness against the sorcerers, against the adulterers, against those who swear falsely, against those who oppress the hired workers in their wages, the widow, and the orphan,

estron o'r neilltu, ac nad ydynt yn fy ofni i," medd Arglwydd y Lluoedd.

Dyma air yr Arglwydd.

Diolch a fo i Dduw.

Salm 24

A. Arglwydd y Lluoedd, ef yw brenin y gogoniant.

Eiddo'r Arglwydd yw'r ddaear a'i llawnder, y byd a'r rhai sy'n byw yn ddo; oherwydd ef a'i sylfaenodd ar y moroedd a'i sefydlu ar yr afonydd. **A**

Pwy a esgyn i fynydd yr Arglwydd a phwy a saif yn ei le sanctaidd? Y glân ei ddwylo a'r pur o galon, yr un sydd heb osod ei feddwl ar dwyll a heb dyngu'n gelwyddog. **A**

Fe dderbyn fendith gan yr Arglwydd a chyflawnder gan Dduw ei iachawdwriaeth. Dyma'r genhedlaeth sy'n ei geisio, sy'n ceisio wyneb Duw Jacob. **A**

Codwch eich pennau, O byrth!
Ymddyrcchefwch, O ddrysau tragwyddol! i frenin y gogoniant ddod i mewn. Pwy yw'r brenin gogoniant hwn? Yr Arglwydd, cryf a chadarn, yr Arglwydd, cadarn mewn rhyfel. **A**

Codwch eich pennau, O byrth!
Ymddyrcchefwch, O ddrysau tragwyddol! i frenin y gogoniant ddod i mewn. Pwy yw'r brenin gogoniant hwn? Arglwydd y Lluoedd, ef yw brenin y gogoniant. **A**

against those who thrust aside the alien, and do not fear me, says the Lord of hosts.

This is the word of the Lord.

Thanks be to God.

Psalm 24.

R. The Lord of hosts, he is the King of glory.

The earth is the Lord's and all that is in it, the world and all who dwell therein. For it is he who founded it upon the seas and made it firm upon the rivers of the deep. **R**

'Who can ascend the hill of the Lord? and who can stand in his holy place?' 'Those who have clean hands and a pure heart, who have not pledged themselves to falsehood, nor sworn by what is a fraud. **R**

They shall receive a blessing from the Lord and a just reward from the God of their salvation.' Such is the generation of those who seek him, of those who seek your face, O God of Jacob. **R**

Lift up your heads, O gates; lift them high, O everlasting doors; and the King of glory shall come in. 'Who is this King of glory?' 'The Lord, strong and mighty, the Lord, mighty in battle.' **R**

Lift up your heads, O gates; lift them high, O everlasting doors; and the King of glory shall come in. 'Who is he, this King of glory?' 'The Lord of hosts, he is the King of glory.' **R**

Hebreaid 2.14-18

Darlleniad o'r llythyr at y Hebreaid

Felly, gan fod y plant yn cydgyfranogi o'r un cig a gwaed, y mae yntau, yr un modd, wedi cyfranogi o'r cig a gwaed hwnnw, er mwyn iddo, trwy farwolaeth, ddiddymu'r hwn sydd â grym dros farwolaeth, sef y diafol, a rhyddhau'r rheini oll oedd, trwy ofn marwolaeth, wedi eu dal mewn caethiwed ar hyd eu hoes. Yn sicr, gafael y mae yn nisgynyddion Abraham ac nid mewn angylion. Am hynny, yr oedd yn rhaid iddo, ym mhob peth, gael ei wneud yn debyg i'w berthnasau, er mwyn iddo fod yn archoffeiriad tosturiol a ffyddlon, gerbron Duw, i fod yn aberth cymod dros bechoda'u'r bobl. Oherwydd, am iddo ef ei hun ddioddef a chael ei demtio, y mae'n gallu cynorthwyo'r rhai sydd yn cael eu temtio.

Dyma air yr Arglwydd.

Diolch a fo i Dduw.

Luc 2.22-40

Gwrandewch Efengyl Crist yn ôl Sant Luc

Gogoniant i ti, O Arglwydd.

Pan ddaeth amser eu puredigaeth yn ôl Cyfraith Moses, cymerodd ei rieni ef i fyny i Jerwsalem i'w gyflwyno i'r Arglwydd, yn unol â'r hyn sydd wedi ei ysgrifennu yng Nghyfraith yr Arglwydd:

Hebrews 2.14-18

A reading from the letter to the Hebrews

Since the children share flesh and blood, Jesus himself likewise shared the same things, so that through death he might destroy the one who has the power of death, that is, the devil, and free those who all their lives were held in slavery by the fear of death. For it is clear that he did not come to help angels, but the descendants of Abraham. Therefore he had to become like his brothers and sisters in every respect, so that he might be a merciful and faithful high priest in the service of God, to make a sacrifice of atonement for the sins of the people. Because he himself was tested by what he suffered, he is able to help those who are being tested.

This is the word of the Lord.

Thanks be to God.

Luke 2.22-40

Listen to the gospel of Christ according to St Luke

Glory to you, O Lord.

When the time came for their purification according to the law of Moses, Mary and Joseph brought Jesus up to Jerusalem to present him to the Lord. (as it is written in the law of the

"Pob gwryw cyntafanedig, fe'i gelwir yn sanctaidd i'r Arglwydd"; ac i roi offrwm yn unol â'r hyn sydd wedi ei ddweud yng Nghyfraith yr Arglwydd: "Pâr o durturod neu ddau gyw colomen." Yn awr yr oedd dyn yn Jerwsalem o'r enw Simeon; dyn cyfawn a duwiol oedd hwn, yn disgwyl am ddiddanwch Israel; ac yr oedd yr Ysbryd Glân arno. Yr oedd wedi cael datguddiad gan yr Ysbryd Glân na welai farwolaeth cyn gweld Meseia'r Arglwydd. Daeth i'r deml dan arweiniad yr Ysbryd; a phan ddaeth y rhieni â'r plentyn lesu i mewn, i wneud ynglŷn ag ef yn unol ag arfer y Gyfraith, cymerodd Simeon ef i'w freichiau a bendithiodd Dduw gan ddweud: "Yn awr yr wyt yn gollwng dy was yn rhydd, O Arglwydd, mewn tangnreffed yn unol â'th air; oherwydd y mae fy llygaid wedi gweld dy iachawdwriaeth, a ddarperaist yng ngŵydd yr holl bobloedd: goleuni i fod yn ddatguddiad i'r Cenhedloedd ac yn ogoniant i'th bobl Israel." Yr oedd ei dad a'i fam yn rhyfeddu at y pethau oedd yn cael eu dweud amdano. Yna bendithiodd Simeon hwy, a dywedodd wrth Fair ei fam, "Wele, gosodwyd hwn er cwyp a chyfodiad llawer yn Israel, ac i fod yn arwydd a wrthwynebir; a thithau, trywenir dy enaid di gan gleddyf; felly y datguddir meddyliau calonnau lawer." Yr oedd proffwydes hefyd, Anna merch Phanuel o Iwyth Aser. Yr oedd hon yn oedrannus iawn, wedi byw saith

Lord, 'Every firstborn male shall be designated as holy to the Lord'), and they offered a sacrifice according to what is stated in the law of the Lord, 'a pair of turtle-doves or two young pigeons.' Now there was a man in Jerusalem whose name was Simeon; this man was righteous and devout, looking forward to the consolation of Israel, and the Holy Spirit rested on him. It had been revealed to him by the Holy Spirit that he would not see death before he had seen the Lord's Messiah. Guided by the Spirit, Simeon came into the temple; and when the parents brought in the child Jesus, to do for him what was customary under the law, Simeon took him in his arms and praised God, saying, 'Master, now you are dismissing your servant in peace, according to your word; for my eyes have seen your salvation, which you have prepared in the presence of all peoples, a light for revelation to the Gentiles and for glory to your people Israel.' And the child's father and mother were amazed at what was being said about him. Then Simeon blessed them and said to his mother Mary, 'This child is destined for the falling and the rising of many in Israel, and to be a sign that will be opposed so that the inner thoughts of many will be revealed – and a sword will pierce your own soul too.' There was also a prophet, Anna the daughter of Phanuel, of the tribe of Asher. She was of a great age,

mlynedd gyda'i gŵr ar ôl priodi, ac wedi parhau'n weddw nes ei bod yn awr yn bedair a phedwar ugain oed. Ni byddai byth yn ymadael â'r deml, ond yn addoli gan ymprydio a gweddio ddydd a nos. A'r awr honno safodd hi gerllaw a moli Duw, a llefaru am y plentyn wrth bawb oedd yn disgwyl rhyddhad Jerwsalem. Wedi iddynt gyflawni popeth yn unol â Chyfraith yr Arglwydd, dychwelsant i Galilea, i Nasareth eu tref eu hunain. Yr oedd y plentyn yn tyfu yn gryf ac yn llawn doethineb; ac yr oedd ffafn Duw arno.

Dyma Efengyl yr Arglwydd.

Moliant i ti, O Grist.

having lived with her husband seven years. after her marriage, then as a widow to the age of eighty-four. She never left the temple but worshipped there with fasting and prayer night and day. At that moment she came, and began to praise God and to speak about the child to all who were looking for the redemption of Jerusalem. When they had finished everything required by the law of the Lord, they returned to Galilee, to their own town of Nazareth. The child grew and became strong, filled with wisdom; and the favour of God was upon him.

This is the Gospel of the Lord.

Praise to you, O Christ.

Yr Ymbiliau

Gan ymddiried yn y goleuni dwyfol a ddatguddiwyd i'r ddynoliaeth gadewch inni weddio ar yr Arglwydd.

Diolchwn am y wybodaeth o'n hachubiaeth, a welir â llygaid ffydd nid â golwg ... Goleua'r Eglwys i fod yn Deml i ogoniant Crist ac yn dyst i'r byd.

**Arglwydd, yn dy drugaredd,
gwrando ein gweddi.**

Bydded i'r goleuni dwyfol dywynnu ar bob cenedl ... Trwy Grist a gymerodd ein natur ni arno'i hun yn llwyr, gwared dy bobl rhag pob drwg.

**Arglwydd, yn dy drugaredd,
gwrando ein gweddi.**

The Intercessions

With confidence in the divine light revealed to our human race, let us pray to the Lord.

We give thanks for knowledge of our salvation, seen with the eye not of sight but of faith ...
Enlighten the Church to be a true Temple to the glory of Christ and a witness to the world.

Lord, in your mercy

Hear our prayer

Make the divine light to shine on all nations ... Through Christ, who took our nature fully upon him, deliver your people from all evil.

Lord, in your mercy

Hear our prayer

Gyda'n teuluoedd a'n cyfeillion gwna
ni'n oleuni i oleuo bywydau eraill ... Tyrd
â thân iachusol dy gariad i lanhau popeth
sydd o'i le yn ein cymuned, fel bod pawb
yn adnabod eu gwir Waredwr.

**Arglydd, yn dy drugaredd,
gwrando ein gweddi.**

Bendithia ac amddiffyn y diamddiffyn yn
y ddynolryw sy'n gyffredin i ni i gyd, y
babanod, y rheini sydd heb fawr o
bethau'r byd hwn ganddynt, yr
oedrannus a'r musgrell ... Bydd yn
amddiffynfa gadarn iddynt pan fyddant
mewn angen a chadw hwy rhag drwg.

**Arglydd, yn dy drugaredd,
gwrando ein gweddi.**

Gweddiwn dros y rhai a ymadawodd
mewn heddwch ac a ddaeth i oleuni
gogoneddus tragwyddoldeb ... Derbyn
hwy i'r waredigaeth a baratowyd iddynt
o'r dechreuaed.

**Arglydd, yn dy drugaredd,
gwrando ein gweddi.**

Terfynwn ein gweddïau yn nhangnefedd
Duw sydd wedi rhoi ei Fab inni i fod yn
Waredwr y byd.

Dad Trugarog,
derbyn y gweddïau hyn
er mwyn dy Fab,
ein Gwaredu lesu Grist. Amen.

In our families and friendships, make us a
light to lighten the lives of others ... Come
with the healing fire of your love to cleanse
all that is not right in our community, that
all may know their true Redeemer.

Lord, in your mercy
Hear our prayer

Bless and protect the vulnerable ones of
our common humanity: the babies, the
parents who have few of the world's
goods, the aged and infirm ... Be their
strong defence in times of need and
keep them from harm.

Lord, in your mercy
Hear our prayer

We pray for those who have departed
in peace and come into the glorious light
of eternity ... Receive them into the
salvation that was prepared for them
from the beginning.

Lord, in your mercy
Hear our prayer

We end our prayers in the peace of
God who has given us his Son to be the
Saviour of the world.

Merciful Father,
accept these prayers
for the sake of your Son,
our Saviour Jesus Christ. Amen.

Emyn 2

O faban glân, O faban mwyn,
mor hardd dy wedd, mor âyl dy drem:
o'r nef fe ddaethost inni'n Frawd,
â ni yn gydradd, ddynion tlawd,
O faban glân, O faban mwyn.

O faban glân, O faban mwyn,
llawn o'th lawenydd yw ein byd:
cysuron nef a roddi di
i bawb mewn poen a gyfyd gri,
O faban glân, O faban mwyn.

O faban glân, O faban mwyn,
mor brydferth yw dy gariad pur:
rho inni fflam dy gariad di
yn danbaid lewych ynom ni,
O faban glân, O faban mwyn.

O faban glân, O faban mwyn,
dod gymorth in i wneud dy waith:
ti piau'n holl feddiannau ni,
boed ein teyrngarwch fyfth i ti,
O faban glân, O faban mwyn.

Priodolir i Valentin Thilo, 1607-62

cyf. Percy Dearmer, 1867-1936

a W. D. Williams, 1900-85

© Iolo Wyn Williams. Defnyddiwyd trwy ganiatâd

Hymn 2

O little one sweet, O little one mild,
thy Father's purpose thou hast fulfilled;
thou cam'st from heav'n to dwell below,
To share the joys and tears we know,
O little one sweet, O little one mild.

O little one sweet, O little one mild,
with joy thou hast the whole world filled;
thou camest here from heav'n's domain,
to bring men comfort in our pain,
O little one sweet, O little one mild.

O little one sweet, O little one mild.
in thee Love's beauties are all distilled;
then light in us thy love's bright flame,
that we may give thee back the same,
O little one sweet, O little one mild.

Percy Dearmer, 1867-1936

Ôl Gymun

Arglydd, cyflawnaiast obaith Simeon ac Anna, a gafodd fyw i groesawu'r Meseia: bydded i ni, a dderbyniodd y rhoddion hyn sydd y tu hwnt i eiriau, baratoi i gyfarfod â Christ lesu pan ddaw i'n dwyn i fywyd tragicyddol, oherwydd y mae'n fyw ac yn teyrnasu, yn awr a hyd byth.

Amen.

Post Communion

Lord, you fulfilled the hope of Simeon and Anna, who lived to welcome the Messiah: may we, who have received these gifts beyond words, prepare to meet Christ Jesus when he comes to bring us to eternal life; for he is alive and reigns, now and for ever.

Amen.

Emyn 3

Goleuni'r byd yw Crist,
Twywysog ein hachubiaeth,
y seren fore yw
a gwawr ein gwaredigaeth.
Ein gobaith ydyw ef,
perffeithydd mawr ein ffydd,
diddarfod gariad yw
sy'n troi pob nos yn ddydd.

Ein heddwch ni yw Crist,
fe greodd un ddynoliaeth,
a chwalodd drwy ei gnawd
ganolfur o elyniaeth.
Nawr drwyddo at y Tad
mae ffordd i bawb i ddod;
aelodau teulu Duw
sy'n cyd-ddyrchafu'i glod.

Hymn 3

Goleuni'r byd yw Crist,
Twywysog ein hachubiaeth,
y seren fore yw
a gwawr ein gwaredigaeth.
Ein gobaith ydyw ef,
perffeithydd mawr ein ffydd,
diddarfod gariad yw
sy'n troi pob nos yn ddydd.

Ein heddwch ni yw Crist,
fe greodd un ddynoliaeth,
a chwalodd drwy ei gnawd
ganolfur o elyniaeth.
Nawr drwyddo at y Tad
mae ffordd i bawb i ddod;
aelodau teulu Duw
sy'n cyd-ddyrchafu'i glod.

Ein bywyd ni yw Crist,
mae'n Arglwydd ar farwolaeth;
gollynga ni yn rhydd
o rwymau llygredigaeth.
Dyrchafwn enw'r Oen,
rhawn iddo newydd gân;
gogoniant fo i'r Tad
a'r Mab a'r Ysbryd Glân.

G. W. Briggs, 1875-1959
Efel. Dyfnallt Morgan, 1917-94

© Gwasg Prifysgol Rhydychen; Tomos
Morgan. Defnyddiwyd trwy ganiatâd

Ein bywyd ni yw Crist,
mae'n Arglwydd ar farwolaeth;
gollynga ni yn rhydd
o rwymau llygredigaeth.
Dyrchafwn enw'r Oen,
rhawn iddo newydd gân;
gogoniant fo i'r Tad
a'r Mab a'r Ysbryd Glân.

G. W. Briggs, 1875-1959
Efel. Dyfnallt Morgan, 1917-94

© Gwasg Prifysgol Rhydychen; Tomos
Morgan. Defnyddiwyd trwy ganiatâd

